# Cyngor Cymuned Pentir

## Cofnodion cyfarfod Rhithiol o'r Cyngor Llawn

## Nos Iau 14eg o Ebrill 2022

1. **Presennol:** Cyng D W Jones – Cadeirydd, Cyng D Jones-Morris;; Cyng E Jones; Cyng J Griffiths Cyng J Lewis a Cyng B Jones
   Clerc E Jones
2. **Ymddiheuriadau** ; Cyng T Anwyl Williams, , Cyng L A James; Cyng M Baines, Cyng M Lynch; Cyng H Griffiths a'r Cyng J Pierce oedd wedi ymuno ond fethodd gymeryd rhan oherwydd problem technegol;
3. Datgan buddiant
   Cyng E Jones a L A James yn datgan eu bod yn rhan o bwyllgor y Ganolfan yn Penrhos
4. Derbyn cofnodion 10fed o Fawrth 2022
   Cyng E Jones yn cynnig a Cyng B. Jones yn eilio
5. Materion yn codi o'r cofnodion
   Trafodwyd a ddylai diogelwch Cerrig Beddi gael ei gynnwys yn ein cofrestr risg o gofio mae cyfrifoldeb deilydd gweithredoedd y bedd yw sicrhau fod y cerrig yn ddiogel. Gofynwyd pryd mae cyfrifoldeb teuluol yn gorffen os yw'n gorffen **Clerc i wneud ymholiadau pellach**
6. Materion ariannol
   a. Cofnodion cyfarfod IBC 31/03/2022 Rhanwyd y cofnodion ar y sgrin gan ddilyn hefo'r fantolen ariannol oedd yn dangos £25,248.88 yn y cyfrif cyfredola £35,041.97 yn y cyfrif cadw yn dilyn derbyn llog o £1.71
   b. 'Roedd adroddiad ariannol am y flwyddyn 2021-22 wedi ei anfon yn electronig at y Cynghorwyr cyn y cyfarfod
7. Logo newydd Cyng L A James wedi cysylltu a'r dylunydd a thra iddi orfod ymddiheuro munud olaf heno 'roedd wedi adrodd fod y dylunydd yn hapus i arbrofi ar gynhyrchu fidio ond nad oedd wedi dderbyn dim hyd yn hyn
8. Cynllunio
   Dim cais wedi ei dderbyn ers y cyfarfod dwaetha
9. **Materion y Clerc**
   - **Diffibs** Y peiriannau bellach wedi eu gosod yn Glasinfryn ag wrth cae Peldroed Ieuenctid Penrhos
   - **Septic Tanc** Cytundeb hefo Dwr Cymru wedi eu arwyddo a'i anfon
   - **Tyrchod y Fynwent** Contractwr wedi ymweld ag i weld wedi cael hwyl ar eu clirio
   - **Capel y Fynwent** Cyfarfod wedi ei drefnu erbyn
   - **Apel Eisteddfod Boduan 2023** Trafodwyd byddai'n briodol anfon ail ran y swm gytunwyd **ei** gyfranu oedd yn £1500. **Anfon felly £750**
   - **Etholiad Mai 2022** A'r dyddiad enwebu wedi cau daeth yn amlwg mae 9 ffurflen briodol oedd wedi eu dychwelyd ar gyfer 12 sedd **– Ni fyddai felly angen etholiad**
   **Mi oedd ffurflen arall heb ei chwblhau yn llawn ond y Cyng hwnnw yn hapus i gael ei gyfethol**
   **'Roedd 6 enw ar gyfer Ward Y Faenol a 3 ar gyfer Ward Glasinfryn**

   A hitha felly yn ddiwedd tymor y Cyngor Presennol a dim ffurflen wedi eu dychwelyd gan y **Cyng Tudur Anwyl Williams a'r Cyng Huw Griffiths gofynwyd i'r Clerc anfon gair o ddiolch iddynt am eu gwasanaeth**
   **Nid oedd Cyng James Griffiths wedi dychwelyd ei ffurflen yntau** ond cadarnhaodd y byddai yn hapus i gael ei gyfethol ond nad oedd yn bwriadu gwneud tymor o 5 mlynedd. fyddai hynny

Daeth y cyfarfod i ben am 7.55